



Gellir cynllunio adeiladau i gael y gwres mwya o olau'r haul, gyda nodweddion fel rhagor o wydr ar yr ochr ddeheuol (ar gyfer y rhan yma o'r byd), deunyddiau trwchus i storio'r gwres solar a geir a nodweddion i atal gorboethi yn ystod yr haf.

Newid yn yr hinsawdd CO ₂ e y kW awr	10 gram (ar gyfer gwres)	Mae'r unig allyriadau CO ₂ yn codi wrth wneud a gosod deunyddiau ychwanegol.
Effaith ar fyd natur	Bach iawn	Dim effaith ar systemau naturiol ac eithrio'r deunyddiau a ddefnyddir.
Risgiau	Bach iawn	Gall adeiladau solar goddefol a gynllunnir yn wael orboethi yn yr haf.
Effaith weledol	Ychydig iawn/ Bach iawn	Rhaid iddynt gael eu lleoli i dderbyn y gorau o'r heulwen gyda nodweddion i roi cysgod yn yr haf.
Cost ar hyn o bryd	Isel/ Isel iawn	Does dim rhaid i adeilad sydd â'r nodweddion hyn gostio llawer yn fwy a bydd yn arbed costau tanwydd gwresogi.
Cost ymhen 20 mlynedd	Isel iawn	Yn debygol o fynd yn rhatach os codir mwy o adeiladau fel hyn wrth i'r cynllunio, deunyddiau a sgiliau adeiladu gael eu deall yn ehangach.
Adnoddau'r DU	Cymedrol	Ni fydd yn darfod ond mae golau dydd byr yn y gaeaf a dyddiau cymylog yn gyfyngiadau.
Dibynadwyedd/ hyblygrwydd	Cymedrol	Gall gyfrannu at wresogi'n eitha dibynadwy, yn enwedig yn y gwanwyn/hydrif. Ddim yn hyblyg ac mae angen gwres wrth gefn.